


# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Y Pwyllgor Archwilio

Gwaith y Pwyllgor
2007-08

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol **www.cynulliadcymru.org**

I gael rhagor o gopïau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Y Pwyllgor Archwilio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8617
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Audit.Comm@wales.gsi.gov.uk

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Archwilio

Gwaith y Pwyllgor
2007-08

## Aelodau'r Pwyllgor Archwilio

Aelodau presennol y Pwyllgor:



**Jonathan Morgan (Cadeirydd)**
Gogledd Caerdydd



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth



**Mike German**
Dwyrain De Cymru



**Janice Gregory**
Ogwr



**Lesley Griffiths**
Wrecsam



**Irene James**
Islwyn



**Bethan Jenkins**
Gorllewin De Cymru



**Huw Lewis**
Merthyr Tudful and Rhymni



**Nick Ramsay**
Mynwy



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru

# Aelodau'r Pwyllgor Archwilio

Cyn-aelodau'r Pwyllgor:



**Eleanor Burnham**
tan 13 Ionawr 2009



**Jocelyn Davies**
tan 18 Medi 2007



**Christopher Franks**
tan 11 Chwefror 2009



**Helen Mary Jones**
tan 5 Mawrth 2008



**David Melding (cyn Gadeirydd)**
tan 3 Mawrth 2009



**Darren Millar**
tan 3 Mawrth 2009



**Karen Sinclair**
tan 18 Medi 2007

## Rhagair gan y Cadeirydd

Ers dechrau'r trydydd Cynulliad, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi parhau i ddatblygu a chryfhau sut y mae'n cyflawni ei rôl o ddwyn Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfrif, gan fynnu dull effeithiol ac effeithlon o lywodraethu Cymru. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn 170 o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor rhwng mis Medi 2007 a mis Rhagfyr 2008 yn dyst i deilyngdod gwaith y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor wedi archwilio amrywiaeth eang o feysydd polisi i sicrhau bod gwerth am arian wrth galon llywodraethu yng Nghymru. Lle mae enghreifftiau o arfer da, mae'r Pwyllgor yn ceisio eu hyrwyddo. Fodd bynnag, lle mae'r Pwyllgor yn nodi bod lle i wella, rydym yn disgwyl i wersi gael eu dysgu a'u rhoi ar waith o fewn cyfnod rhesymol o amser. Mae'r Pwyllgor, gyda chymorth Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn dilyn hynt yr achosion hyn gyda diddordeb.

Yn ogystal ag annog cyrff cyhoeddus eraill i barhau i wella, mae'r Pwyllgor Archwilio yn ymdrechu i wneud yr un peth. Ym mis Ebrill 2008, cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio y cyfarfod blynyddol cyntaf ar gyfer Cadeiryddion a chlercod Pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus ac Archwilio. Mynychwyd y cyfarfod gan gynrychiolwyr o Dŷ'r Cyffredin, dau dŷ'r Oireachtas, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhannodd y grŵp enghreifftiau o arferion gorau gan weithio gyda'i gilydd i archwilio a gwella arferion a gweithdrefnau pwyllgorau. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n parhau i chwilio am enghreifftiau o arfer gorau ac yn ceisio dysgu gan eraill a bod yn enghraifft iddynt. Yn y flwyddyn i ddod, mae'n gobeithio datblygu a gwella ei ddull ei hun o weithio i sicrhau y gwneir defnydd mwy effeithiol o'i amser ac i gael yr effaith fwyaf.  Bydd yn adrodd yn ôl ar hyn yn ei adroddiad blynyddol nesaf.

I gloi, rhaid i mi gofnodi bod y Pwyllgor yn diolch yn fawr iawn i David Melding am ei arweinyddiaeth yn ystod y cyfnod ers diwedd yr etholiad diwethaf, a gynhwysir yn yr adroddiad hwn. Rhaid i mi hefyd ddiolch i gyn aelodau ac aelodau presennol y Pwyllgor am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i'r gwaith pwysig hwn.

Jonathan Morgan AC

## Cyflwyniad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys 10 Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynrychiolir pedair plaid wleidyddol y Cynulliad Cenedlaethol yn y Pwyllgor, a phenodir Aelod o'r gwrthbleidiau fel Cadeirydd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn bodoli oherwydd bod Deddf Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006 yn dweud bod yn rhaid iddo. Mae'r Pwyllgor yn craffu ar sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu ei pholisïau i sicrhau y gwneir hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon, effeithiol ac economaidd bosibl. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn amlygu arferion da a drwg i sicrhau y caiff gwersi eu dysgu ac y gwneir gwelliannau.

Mae'r adroddiad 'blynyddol' hwn yn edrych ar waith y Pwyllgor Archwilio yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2007 a mis Rhagfyr 2008. Ceir mwy o fanylion am y Pwyllgor Archwilio ar adran y Pwyllgor o wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn www.cynulliadcymru.org. Gellir canfod manylion yr adroddiadau yn adran tri yr adroddiad hwn ar y wefan hefyd.

## Dull o Weithio

Mae'r Pwyllgor yn gweithio'n agos gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n ddiolchgar am yr arweiniad a'r cyngor arbenigol y mae'n ei gael gan yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff.

Mae'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiadau a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r adroddiadau yn cael eu paratoi o ganlyniad i ymchwiliadau sy'n aml yn rhai hir gan Swyddfa Archwilio Cymru ac maent yn cynnig gwybodaeth gefndirol fanwl i'r Pwyllgor am faterion a amlygwyd gan yr ymchwiliadau. Mae'r Pwyllgor yna'n gwahodd swyddogion, gan gynnwys y Swyddogion Cyfrifyddu perthnasol, sy'n gyfrifol am roi'r polisïau ar waith i ateb cwestiynau ynghylch canfyddiadau'r adroddiadau.

Mae'r Pwyllgor yna'n ystyried y dystiolaeth hon ac yn cyhoeddi ei adroddiad ei hun sy'n seiliedig ar ganfyddiadau ymchwiliad Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r dystiolaeth a gasglodd ei hun.

## Adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Archwilio rhwng mis Medi 2007 a mis Rhagfyr 2008

Cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio 13 o adroddiadau yn ystod y cyfnod hwn. Cynhaliodd 16 o gyfarfodydd a chafodd dystiolaeth gan 47 o dystion.

**'Diogelu Arian Cyhoeddus ym Mhrosiectau LG, Casnewydd'**
**Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2007**

Roedd disgwyl i'r prosiectau LG fod y mewnfuddsoddiad mwyaf yng Nghymru, a fyddai'n creu 6,106 o swyddi. Yn 1996, roedd disgwyl i'r grŵp LG, sef grŵp o weithgynhyrchwyr electroneg o Korea, fuddsoddi £1.67 biliwn dros bum mlynedd, ac ysgogodd hynny awdurdodau Cymru i gynnig pecyn cymorth oedd yn werth £247 miliwn er mwyn denu'r buddsoddiad i Gymru. Y pecyn cymorth a gynigiwyd oedd y dyfarniad mwyaf a wnaed erioed i ddenu mewnfuddsoddiad i'r DU.

Dechreuodd y prosiectau yn dda, ond ni chawsant eu cwblhau a chrëwyd llai na hanner y swyddi a ddisgwyliwyd. Ni chwblhawyd un prosiect, caeodd ffatri arall yn 2003 gyda'r swyddi olaf yn cael eu colli yn 2006. Felly, ceisiodd awdurdodau Cymru adennill llawer o'r cymorth ariannol a dalwyd eisoes i'r grŵp, oedd yn werth £131 miliwn. Llwyddwyd i adennill £71 miliwn.

Teimlai'r Pwyllgor fod arian Cymreig wedi cael ei roi yn y fantol heb fod angen hynny yn dilyn negodiadau anodd gydag LG wrth gytuno ar y pecyn cymorth. Achoswyd trafferthion gan gymhlethdodau—y mae'n bosibl wnaeth godi o ganlyniad i hepgoriadau gweinyddol, cyfyngiadau cyfrinachedd ac ansicrwydd ynghylch y costau—yn ystod y broses o ofyn am gymeradwyaeth gan Gomisiwn Ewrop ar gyfer y pecyn cymorth ac roedd hynny wedi llesteirio'r negodiadau adfer a ddigwyddodd yn ddiweddarach. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r pecyn ac ni wnaeth awdurdodau Cymru asesu a rheoli'r risgiau'n ddigonol.

Er bod sawl agwedd ar y prosiect wedi mynd yn dda, roedd gwersi pwysig i'w dysgu. Roedd yr angen am asesiad risg priodol yn eglur, a gellid bod wedi gwella sut yr ymdriniwyd â'r pecyn cymorth. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor Archwilio yn fodlon bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwella ei gweithdrefnau yng ngoleuni ei phrofiadau a'i bod yn awr mewn sefyllfa well i ymdrin â materion cymorth gwladol.

**'Adolygiad o'r Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol Newydd yng Nghymru'**
**Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2008**

Mae dros 90% o gysylltiadau cleifion â'r GIG yn digwydd mewn lleoliad gofal sylfaenol. Cyflwynwyd y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol newydd ym mis Ebrill 2004 ac mae'n cynnwys yr holl wasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir gan Feddygon Teulu. Negodwyd y contract newydd ledled y DU, ond roedd cynnydd yn y costau, yn ogystal â sut y rheolwyd y contract gan y Byrddau Iechyd Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn achosi pryder.

Mae cleifion wedi cael budd o'r contract mewn sawl ffordd. Mae gwasanaethau gwell yn dechrau dod â gwasanaethau mwy arbenigol yn agosach at gartrefi cleifion ac mae buddsoddiad mewn safleoedd yn dechrau cynyddu mewn modd mwy pendant. Mae safbwyntiau cleifion yn cael eu hystyried ac maent yn dylanwadu ar benderfyniadau comisiynu. Fodd bynnag, mae pryder o hyd na ddarparwyd gwasanaeth gwell gan Feddygon Teulu ac na chafodd hyn ei fonitro'n gyson, ac er y disgwylir i ofal gwell arwain at ganlyniadau gwell i gleifion, nid oes gwelliannau y gellir eu mesur i'w gweld eto.

Cydnabu'r Pwyllgor bod Meddygon Teulu wedi cael budd o ganlyniad i gyflogau gwell a gostyngiad yn nifer yr oriau gwaith ac nad oes llawer o broblemau o ran recriwtio a chadw. Fodd bynnag, bu gwariant sylweddol, ac os na cheir y buddiannau disgwyliedig, mae'n annhebygol o gynnig gwerth am arian.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd camau i wella sut y caiff y contract ei fonitro a'i reoli ledled Cymru. Derbyniodd y Llywodraeth yr holl argymhellion a wnaed.

**‘Mynd i’r afael ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn y system gyfan’**
**Cyhoeddwyd ym mis Chwefror 2008**

Roedd mwy na chwarter miliwn o ddyddiau gwely mewn ysbytai wedi eu defnyddio gan bobl yng Nghymru yr oedd cyfnod o oedi cyn y gellid eu trosglwyddo i gael math arall o ofal yn ystod 2006-07, sef cynnydd o 2% o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Er bod nifer y bobl sy’n profi cyfnod o oedi wedi gostwng, mae hyd y cyfnod o oedi wedi cynyddu, sy’n bygwth annibyniaeth pobl hŷn sy’n agored i niwed, sy’n cynrychioli y rhan fwyaf o’r rhai sy’n profi cyfnod o oedi.

Mae oedi yn digwydd oherwydd problemau cydgysylltu rhwng y systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae enghreifftiau o arfer da wrth fynd i’r afael â’r problemau hyn, ond dylai cyrff sy’n bartneriaid wneud defnydd gwell o enghreifftiau o’r fath. Mae angen mwy o ffocws ar ddarparu gofal mewn modd cydgysylltiedig o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a chyrff gofal iechyd. Dylid comisiynu gwasanaethau gyda hyn mewn golwg.

Argymhellodd y Pwyllgor fod angen gweledigaeth leol glir ar gyfer gwasanaethau, gan sicrhau bod fframwaith rheoli canolog addas ar gael i gynorthwyo gwasanaethau o’r fath. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru alinio ei chanllawiau, ei chyllidebau, ei blaenoriaethau, a’i mesurau a’i chymhellion perfformiad yn agosach gyda’i gweledigaeth o system gydgysylltiedig a dylai wella’r systemau mesur presennol, sy’n gallu tanamcangyfrif faint o oedi sy’n digwydd wrth drosglwyddo gofal.

Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion hefyd i sicrhau bod y gofal a ddarperir i gynorthwyo pobl hŷn sy’n agored i niwed yn canolbwyntio’n well ar angen pobl am ofal. Dylid cryfhau’r prosesau ar hyd llwybr gofal cyfan y claf a dylai gweithwyr gofal iechyd fod yn fwy parod i gymryd risgiau i helpu i osgoi gofal sefydliadol dianghenraid ac i amddiffyn dyfodol annibynnol cleifion hŷn sy’n agored i niwed.

**‘Adroddiad ar Gyfrifon Adnoddau Cyfunol 2006-07 Cynulliad Cenedlaethol Cymru’**
**Cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2008**

Roedd agweddau ar y gwaith o reoli cyllid yn ystod y broses o uno’r pedwar corff a noddir gan y Cynulliad â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 yn anfoddhaol. Llwyddodd y prosiect uno i sicrhau nifer o lwyddiannau pwysig, o ganlyniad i gryfhau’r trefniadau llywodraethu, rheoli prosiect effeithiol ac ymrwymiad a chyfranogiad y staff ar draws yr holl gyrff yr effeithiwyd arnynt.

Fodd bynnag, oherwydd na chwblhawyd y cysoniad banc misol ar amser ar ddiwedd mis Mawrth 2007, nodwyd yn rhy hwyr y ffaith na thynnwyd digon o arian o gronfeydd y Trysorlys yn 2006-07. Bu’n rhaid i lywodraeth Cymru wneud cais am gymeradwyaeth ôl-weithredol gan Drysorlys EM er mwyn gwneud y cywiriadau cyllido angenrheidiol ac ym mis Hydref 2007, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyfarniad archwilio diamod ar gyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd cynnydd yn y nifer o dderbynebau na neilltuwyd wedi achosi croniad o fewn yr Adran Gyllid, a oedd yn cael trafferthion oherwydd diffyg capasiti a gwybodaeth addas yn ystod y cyfnod wedi’r uno. Mae’r Pwyllgor yn disgwyl i’r Ysgrifennydd Parhaol flaenoriaethu gwelliannau i’r prosesau rheoli dyled yn y dyfodol.

Mae’r Pwyllgor yn cefnogi amcanion Rhaglen Newid Cyllid Corfforaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru a allai, er ei bod yn hen bryd i hynny ddigwydd, drawsnewid trefniadau’r Llywodraeth ar gyfer rheoli arian ac adrodd yn ôl arno.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal cysoniadau banc misol yn gyson ac yn brydlon ac y dylai gryfhau ei phrosesau rheoli prosiect a rhannu arferion da ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae’r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth cynulliad Cymru gyflenwi ei Phrosiect Newid Cyllid Corfforaethol yn llwyddiannus er mwyn cyflawni heriau sy’n wynebu’r hyn sydd, erbyn hyn, yn dilyn yr uno, wedi datblygu’n gorff sy’n gynyddol gymhleth ac sy’n gyfrifol am gyllideb arian cyhoeddus sy’n werth biliynau o bunnoedd.


New Farming Connect
Programme
Lines to take:

**‘Lleihau Heintiau sy’n Gysylltiedig â Gofal Iechyd mewn Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru’**
**Cyhoeddwyd ym mis Mai 2008**

Mae’n rhaid i ymddiriedolaethau’r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol wneud mwy i leihau nifer yr heintiau y mae cleifion yn eu dal o fewn y system gofal iechyd. Clywodd y Pwyllgor Archwilio, er bod ymddiriedolaethau wedi gwneud cynnydd da yn y maes hwn, nad yw atal a rheoli heintiau yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy’n fusnes i bawb.

Fodd bynnag, mae’r cyfraddau heintio yng Nghymru yn llawer is na’r cyfraddau yn Lloegr ac yn yr Alban, ac mae arwyddion bod y dull yng Nghymru o fynd i’r afael â phob math o haint, yn hytrach na’r heintiau sydd â phroffil cyhoeddus amlwg yn unig, wedi gostwng y cyfraddau heintio yng Nghymru.

Mae’r safonau glanhau amrywiol a’r diffyg capasiti a chyfleusterau digonol mewn rhai ysbytai yn llesteirio’r cynnydd ac yn effeithio ar hyder y cyhoedd. Mae rhaglenni cyfalaf presennol yn rhoi cyfle i’r GIG sicrhau bod sut y caiff ysbytai eu dylunio yn lleihau’r risg o gael haint drwy’r defnydd o gyfleusterau ynysu gwell.

Mae monitro a meincnodi cyfraddau heintio yn hanfodol er mwyn hysbysu strategaethau i ostwng y cyfraddau. Er y gall ymddiriedolaethau’r GIG osod eu cyfraddau eu hunain i leihau heintiau, ni chesglir gwybodaeth ddibynadwy yn erbyn y targedau hynny ar hyn o bryd, ac mae llawer o bethau na wyddwn amdanynt o hyd.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Lywodraeth Cynulliad Cymru wella sut y caiff heintiau sy’n gysylltiedig â gofal iechyd eu monitro a sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd yn cymryd perchnogaeth o’r broses o atal a rheoli heintiau, ac y dylai ymddiriedolaethau’r GIG rannu arfer da a datblygu cynlluniau gweithredu i wella sut y caiff heintiau eu rheoli a’u hatal yn y dyfodol.

Mae’r Pwyllgor yn gobeithio y bydd yr argymhellion niferus a wnaeth yn helpu rhywfaint i leihau’r cyfraddau heintio yng Nghymru ymhellach, gan wella profiad y claf a lleihau cost ariannol flynyddol heintiau sy’n gysylltiedig â gofal iechyd yng Nghymru, yr amcangyfrifir i fod yn £50 miliwn.

**‘Cyngor Celfyddydau Cymru – Cefnogi Prosiectau Cyfalaf Mawr’**
**Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008**

Oddeutu £7 miliwn y flwyddyn oedd cyfanswm gwariant cyfalaf Cyngor Celfyddydau Cymru rhwng 1999-2000 a 2006-07, a gyllidwyd gan ei gyfran o arian Loteri. Defnyddiwyd y buddsoddiad hwn i ariannu prosiectau sy’n cael eu rhedeg gan gyrff eraill i adeiladu, ymestyn neu adnewyddu cyfleusterau celfyddydol ledled Cymru. Fodd bynnag, dros y bum mlynedd nesaf, mae disgwyl i’r cyfanswm a fuddsoddir leihau gan fwy na hanner i £3 miliwn y flwyddyn.

Er bod Cyngor y Celfyddydau yn wynebu heriau sylweddol i sicrhau bod gan ddigon o gyfleusterau celfyddydol ledled Cymru lai o adnoddau cyfalaf a chyllid statig, teimlai’r Pwyllgor y gellid gwneud mwy i wneud defnydd gwell o’r cyllid cyfyngedig sydd ar gael.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod prosesau’r Cyngor ar gyfer rheoli risg a diogelu’r effaith ariannol arno wedi gwella. Er bod risg sylfaenol ynghlwm wrth bob prosiect a gefnogir gan Gyngor y Celfyddydau, mae’r Cyngor yn canolbwyntio ar faint y risg yn hytrach na swm y grant a gynigir. Mae ei weithdrefnau monitro ac asesu, yn ogystal â’i ymgysylltiad da â phartneriaid prosiect, wedi arwain at reoli risg yn well, er bod sgôp o hyd i wella.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Cyngor y Celfyddydau barhau i wella ei asesiadau prosiect a risg. Argymhellodd hefyd y dylai’r Cyngor weithio gydag awdurdodau lleol i wneud y mwyaf o’r arian sydd ar gael ac i nodi a hyrwyddo prosiectau addas. Ymhellach at hynny, argymhellodd y Pwyllgor y dylai’r Cyngor helpu’r cyrff sy’n gleientiaid iddo i gael gafael ar fuddsoddiad preifat a dylai archwilio canlyniadau’r prosiectau y mae wedi buddsoddi ynddynt hyd yn hyn i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o’r cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael i’r celfyddydau yng Nghymru.

**‘Cynyddu Gweithgarwch Corfforol yng Nghymru’**
**Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008**

Mae canlyniadau diffyg gweithgarwch corfforol yn dod yn gynyddol yn broblem fyd-eang ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau yn y dyfodol. Yng Nghymru, mae 22% o blant a phobl yn eu harddegau cynnar yn ordew ac mae diffyg gweithgarwch corfforol yn costio tua £650 miliwn i’r economi yng Nghymru bob blwyddyn.

Ym mis Ionawr 2005, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Roedd y targedau yn ei dogfen strategaeth, ‘Dringo’n Uwch’ yn ei gwneud yn ofynnol i nifer o gyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gydweithio i sicrhau y gwneir y newidiadau mewn diwylliant ac ymddygiad sydd eu hangen i gynyddu’r lefelau o weithgarwch corfforol yng Nghymru. Ystyriodd y Pwyllgor sut y gweithredwyd y strategaeth dair blynedd a hanner wedi iddi gael ei lansio.

Er bod angen arweinyddiaeth gref ar gyfer strategaeth sydd mor uchelgeisiol, teimlai’r Pwyllgor bod diffyg arweinyddiaeth o’r fath. Teimlai’r Pwyllgor hefyd nad oedd dulliau cyflenwi eglur ar gyfer y strategaeth, ac nad oedd trefniadau priodol ar gyfer monitro’r cynnydd a gwerthuso’r canlyniadau.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth y Cynulliad wella sut y mae’n arwain y strategaeth a phenodi aelod uwch o staff i hyrwyddo’r gwaith ar weithgarwch corfforol drwy Lywodraeth cynulliad Cymru, sef yr hyn a argymhellwyd yn flaenorol gan Archwilydd Cenedlaethol Cymru. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu’r cyllid sy’n cefnogi’r strategaeth ac y dylai lansio ymgyrch ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd i annog ymarfer corff er lles iechyd.

Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf ar y materion hyn o fewn 12 mis i ddyddiad y gwrandawiad.

**‘Cyflawni’r Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref yng Nghymru’**
**Cyhoeddwyd ym mis Medi 2008**

Mae Deddf Arbed Ynni yn y Cartref 1995 yn ei gwneud yn ofynnol bod pob cyngor yng Nghymru yn datblygu cynlluniau i wneud gwelliannau sylweddol o ran defnyddio ynni’n effeithlon yn y cartref. Fodd bynnag, roedd y targedau a gytunwyd yn 2004 rhwng y cynghorau a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyd yn llai uchelgeisiol na’r gwelliant o 30% a fwriadwyd yn y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref. Ymhellach at hynny, roedd y cynlluniau yn canolbwyntio gan mwyaf ar dai cymdeithasol.

Ymddengys y gwnaed gwelliannau sylweddol o ran defnyddio ynni’n effeithlon o fewn stoc tai Cymru dros y cyfnod dan sylw yn y Ddeddf Arbed Ynni yn y Cartref, ond mae’n anodd mesur y cynnydd. Mae data anghywir ac anghysonderau yn y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu’r data wedi llesteirio’r broses o fonitro’r cynnydd yn glir. Cydnabu’r Pwyllgor yr anawsterau sy’n gynhenid yn y broses hon, ond credai y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio’n agosach gyda chwmnïau cyfleustodau i fonitro perfformiad yn y dyfodol.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid gosod targedau realistig ac y dylid sefydlu llinell sylfaen asesu er mwyn gwella’r broses fonitro yn y dyfodol. Dylai cynghorau Cymru flaenoriaethu eu goblygiadau o dan y Ddeddf Diogelu Ynni yn y Cartref a datblygu ffyrdd gwell o ddylanwadu ar effeithiolrwydd a monitro’r cynnydd. Dylai cynlluniau ganolbwyntio hefyd ar ddylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr yn y sector preifat er mwyn gwneud cynnydd gwirioneddol yn y frwydr yn erbyn tlodi tanwydd ac allyriadau carbon yng Nghymru.



**‘Tir Gofal’**
**Cyhoeddwyd ym mis Medi 2008**

Tir Gofal yw prif gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwobrwyo tirddeiliaid am ddefnyddio eu tir mewn ffordd sy’n garedig i’r amgylchedd. Lansiwyd y cynllun yn 1999, ac erbyn 31 Mawrth 2007, roedd wedi talu mwy na £100 miliwn i dirddeiliaid ac yn cynnwys 20% o’r tir amaethyddol yng Nghymru.

Archwiliodd y Pwyllgor i ba raddau roedd y cynllun wedi bodloni ei amcanion. Mae cynllun sylfaenol Tir Gofal yn un cadarn, ond nid yw’r cynllun wedi cael ei deilwra’n ddigonol i weddu anghenion ac amgylchiadau lleol penodol, ac oherwydd y cyfyngiadau o ran sail y dystiolaeth, mae’n anodd asesu effaith wirioneddol y cynllun.

Gan nad oes dull clir o fonitro effaith y cynllun, mae’n anodd sicrhau gwerth am arian a sicrhau y gellir datblygu cynlluniau rheoli tir yn y dyfodol i gael yr effaith orau. Cydnabu’r Pwyllgor gyfyngiadau ymarferol a methodolegol rhai o’r dulliau monitro, ond teimlai fod y dull presennol yn arwain at ganlyniadau amhendant. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio ei hadolygiad o gynlluniau rheoli tir i ddadansoddi eu heffaith ar arferion ffermio yn fwy systematig.

Methodd y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael â thawelu’r pryderon nad oedd y cynllun yn cael llawer o effaith ar arferion ffermwyr. Os yw’r cynllun yn talu ffermwyr i wneud beth y byddent yn ei wneud beth bynnag, mae’n amheus os yw’r cynllun yn sicrhau gwerth am arian. Mae’n bosibl y gellir ymdrin â’r pryderon hyn drwy wneud defnydd gwell o’r wybodaeth sydd eisoes ar gael.

Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion i wella sut y caiff effaith y cynllun ei monitro. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion hefyd sydd â’r bwriad o gryfhau amcanion y cynlluniau i ddiogelu a gwella cynefinoedd, yr amgylchedd hanesyddol a thirweddau gwledig, ac i hyrwyddo mynediad y cyhoedd i gefn gwlad.

Roedd argymhellion y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd amcanion Tir Gofal, ond roeddent hefyd yn cydnabod y dylid rheoli a monitro cynllun o’r maint hwn yn ofalus i sicrhau y ceir yr effaith a’r gwerth am arian

gorau posibl.

**‘Y Fenter Twyll Genedlaethol 2006-07’**
**Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2008**

Mae’r cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru’n gwario £19 biliwn o arian cyhoeddus bob blwyddyn, ac mae rhan fawr o’r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gyflenwi buddiannau a thaliadau i unigolion i fynd i’r afael ag anghenion cymdeithasol. Mae’r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarfer a gynhelir bob dwy flynedd yng Nghymru gan yr Archwilydd Cyffredinol i nodi ceisiadau am fudd-daliadau sy’n anghywir neu’n dwyllodrus. Mae’n ceisio croeswirio’r manylion a roddir yn y ffurflenni cais a gyflwynir gan unigolion ledled Cymru a’r Deyrnas Unedig er mwyn nodi anghysonderau y bydd angen eu harchwilio ymhellach o bosibl.

Nododd ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol 2006-07 y gellid gwneud gwerth £4.5 miliwn o arbedion yng Nghymru. Er na fydd yr holl ordaliadau a nodwyd yn yr ymarfer wedi eu gwneud o ganlyniad i weithgarwch twyllodrus, mae’r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithredu fel dull i atal unigolion sy’n ystyried cyflawni twyll. Er mwyn sicrhau y caiff yr ymarfer yr effaith fwyaf bosibl, teimlai’r Pwyllgor y dylid gwneud mwy o waith dilynol ar yr anghysondebau a nododd Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Gan fod llwyddiant yr ymarfer yn dibynnu ar y ffaith bod y rhai sy’n cymryd rhan, fel llywodraeth leol, yn darparu setiau llawn o ddata ar gyfer eu trawswirio, cefnogodd y Pwyllgor gynnig yr Archwilydd Cyffredinol i greu mandad ar gyfer cyfatebion dewisol mewn ymarferion yn y dyfodol ac argymhellodd y dylai pob corff sector cyhoeddus yng Nghymru gymryd rhan yn ymarferion y Fenter Twyll Genedlaethol yn y dyfodol. Ymhellach at hynny, argymhellodd y Pwyllgor y dylai targedau’r Fenter Twyll Genedlaethol fod yn fwy penodol yn y tymor canolig a’r tymor hir.

Pwysleisiodd y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd diogelu data a hawliau’r unigolyn, gan gefnogi’r ymdrechion a wnaed i amddiffyn y pwrs cyhoeddus tra’n cadw ymddiriedaeth y cyhoedd.

**‘Adolygiad dilynol – Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru’
Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2008**

Cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio ei adroddiad cyntaf ar Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ym mis Mawrth 2007, ac er y gwelwyd peth cynnydd da yn y cyfnod rhwng cyhoeddi’r adroddiad hwnnw ac adolygiad dilynol y Pwyllgor, mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod angen datrys sialensiau mewnol ac allanol sylweddol.

Mae’r amseroedd ymateb i ddigwyddiadau sy’n bygwth bywyd wedi gwella drwy’r defnydd o gerbydau ymateb cyflym, er bod yn rhaid disgwyl am amser annerbyniol o hir i ambiwlansys cefnogol gyrraedd mewn lleiafrif sylweddol o achosion.

Mae’r arweinyddiaeth a’r dull o lywodraethu wedi gwella a croesawodd y staff y buddsoddiad sylweddol yn y cerbydau a’r cyfarpar clinigol. Mae’r fframwaith rheoli perfformiad newydd yn welliant arall, sy’n galluogi’r Ymddiriedolaeth i fonitro ei berfformiad yn agosach.

Fodd bynnag, mae morâl yn parhau’n isel ac roedd y Pwyllgor yn pryderu’n benodol ynghylch canfyddiad y staff bod diwylliant o weld bai a bwlio o fewn yr Ymddiriedolaeth. Amharwyd ar gyfathrebu ac ymgysylltu â staff oherwydd yr anawsterau o ran recriwtio cyfarwyddwr adnoddau dynol. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai’r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynllun gweithredu i wella morâl ymysg staff.

Er mwyn gwneud gwelliannau pellach, argymhellodd y Pwyllgor y dylai’r Ymddiriedolaeth weithredu fel rhan o’r GIG ehangach, ac y dylai canolbwyntio ar wella amseroedd trosglwyddo i unedau damweiniau ac achosion brys fod yn flaenoriaeth. Hefyd, dylid rhoi blaenoriaeth i’r achos busnes a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru sy’n galw am arian ar gyfer system awtomatig i ganfod lleoliad cerbydau. Gwnaed argymhellion eraill i’r Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cynulliad Cymru, a ddylai gydweithio’n agos i gefnogi gwaith a wneir gan staff rheng flaen y Gwasanaeth Ambiwlans a pharau i wella’r gwasanaeth hwn sy’n hanfodol i bobl Cymru.

Nodyn: mae'r Pwyllgor Archwilio wedi parhau i fonitro perfformiad y Gwasanaeth Ambiwlans a chyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad arall arno yn fuan yn 2009.

**'Y Senedd'**
**Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2008**

Denodd y Senedd, sydd wedi ennill sawl gwobr, oddeutu 300,000 o ymwelwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf y bu ar agor. Fel cartref i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n unigryw o ran ei bwrpas a'i ddyluniad. Mae'r nodweddion a gafodd eu cynnwys ar gyfer yr adeilad yn ystod y cyfnod dylunio yn rhoi rhinweddau amgylcheddol rhagorol i'r adeilad. Costiodd yr adeilad gyfanswm o £70 miliwn i'w adeiladu, a chwblhawyd y prosiect adeiladu am gyfanswm oedd yn weddol agos at yr amcangyfrif yn 2003, sef £66 miliwn.

Er gwaethaf yr anawsterau cychwynnol, a archwiliwyd mewn adroddiad blaenorol gan y Pwyllgor Archwilio, rheolwyd y prosesau contractio ac adeiladu yn dda wedi i'r prosiect gael ei ailddechrau yn 2002. Cydnabu'r Pwyllgor fod y ffaith i dîm effeithiol iawn gael ei sefydlu, gyda'r aelodau'n cydweithio'n agos â'i gilydd ac yn rhannu'r un weledigaeth a phwrpas, wedi dylanwadu'n fawr ar lwyddiant y prosiect.

Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cynnwys cyfarpar technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o'r radd flaenaf yn y Senedd. Fodd bynnag, oherwydd yr oedi cyn gwobrwyo'r contract, achoswyd peth difrod i'r cyfarpar wrth i'r broses o adeiladu'r adeilad a gosod y cyfarpar TGCh orgyffwrdd. Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor yn fodlon na chafwyd effaith fawr ar y prosiect ac y cafodd y broses o osod y cyfarpar TGCh ei rheoli'n dda mewn amgylchedd anodd a heriol iawn.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid rhoi'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect mawr, cymhleth a llwyddiannus hwn ar waith ar gyfer prosiectau adeiladu eraill a reolir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**'Amcangyfrif o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2010'**
**Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2008**

Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio o dan Ddeddf Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006 i archwilio ac ystyried yr amcangyfrifon o incwm a gwariant Swyddfa Archwilio Cymru. Rhaid i'r Pwyllgor ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, a phan ei fod yn fodlon gyda'r amcangyfrifon, rhaid iddo eu gosod gerbron y Cynulliad ynghyd ag unrhyw addasiadau y cred sy'n angenrheidiol.

Mae'n hanfodol bod cyrff cyhoeddus yn sicrhau gwerth am arian, ac mae archwiliad y Pwyllgor Archwilio o amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru o'i hincwm a'i gwariant yn sicrhau y bydd lefel addas o waith craffu yn cael ei wneud ar ei defnydd o arian cyhoeddus.

Ar ôl ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol, gwnaeth y Pwyllgor ddiwygiad bach i'r amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2010. Yna, gosodwyd yr amcangyfrifon gerbron y Cynulliad a chawsant eu cymeradwyo.

**‘Arian ar gyfer Canolfan Mileniwm Cymru’**
**Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008**

Roedd Canolfan Mileniwm Cymru yn brosiect risg uchel o’r cychwyn, ond erbyn hyn mae wedi sefydlu ei hun fel symbol eiconig o ddiwylliant Cymreig modern. Ariannwyd y gost o £109 miliwn i adeiladu’r ganolfan gan y sector cyhoeddus gan mwyaf, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer benthyciad gan y banc o £13 miliwn ar ben hynny.

Ni lwyddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael syniad iawn o allu Canolfan y Mileniwm i dalu’r benthyciad gan y banc wrth iddi symud i’r cam gweithredol, ac ym mis Tachwedd 2007, bu’n rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru dalu’r benthyciad, oedd yn £13.5 miliwn erbyn hynny. Cyhoeddodd y Gweinidog Diwylliant ar y pryd hefyd y byddai cynnydd yn y cymhorthdal a roddir i Ganolfan y Mileniwm, gan ddod â chyfanswm y cymorth ariannol i £3.7 miliwn.

Daeth y Pwyllgor Archwilio i’r casgliad, er y cafodd y risgiau oedd ynghlwm wrth ariannu cam adeiladu’r prosiect eu rheoli’n dda, nad oedd y cyllidwyr yn ddigon ymwybodol yn gyffredinol o’r risgiau oedd yn bodoli yn y cam gweithredol.

Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio y dylid gwneud gwelliannau i’r prosesau monitro a fydd yn lleihau risgiau ariannol i’r pwrs cyhoeddus yn y dyfodol. Argymhellodd hefyd y dylai Cyngor y Celfyddydau gymryd y cyfrifoldeb o ariannu a monitro Canolfan Mileniwm Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylid rhoi asesiad cyflawn i Aelodau’r Cynulliad o’r risgiau cyllido ac ariannu sydd ynghlwm wrth unrhyw brosiectau mawr y gofynnir iddynt eu cefnogi.

Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr holl argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio yn ei adroddiad ac mae’n ymdrin â’r camau gweithredu sy’n deillio ohonynt.



## Gwaith dilynol

Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymatebion ffurfiol i 15 o adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio. Derbyniodd y Llywodraeth 159 o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau, a derbyniodd 11 ohonynt yn rhannol. Ni wrthododd Llywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor. Ymatebodd Comisiwn Cynulliad Cymru hefyd i adroddiad y Pwyllgor ar 'Y Senedd' a derbyniodd ei holl argymhellion.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r cynnydd a wneir o ran gweithredu'r argymhellion fel sy'n angenrheidiol, a chefnogir hynny gan waith dilynol a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Os yw'r Pwyllgor yn teimlo ei bod yn cymryd amser afresymol o hir i weithredu'r argymhellion, mae'n bosibl y bydd yn galw ar swyddogion, gan gynnwys Swyddogion Cyfrifyddu, i fynychu cyfarfod y Pwyllgor i geisio cael mwy o dystiolaeth a sicrwydd eu bod yn mynd i'r afael â'r materion mewn modd effeithiol.

## Rhagolwg

Pob blwyddyn, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyflwyno ei raglen waith i'r Pwyllgor Archwilio. Er nad oes gan y Pwyllgor bwerau i gyfarwyddo'r Archwilydd Cyffredinol, mae'r Pwyllgor a Swyddfa Archwilio Cymru'n cydweithio'n agos i sicrhau y caiff y materion sydd o bwys i bobl Cymru eu hystyried. Yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Pwyllgor Archwilio yn archwilio'r materion a ganlyn, a materion pwysig eraill:

Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn y GIG: a ellir gwneud mwy i atal trais ac ymddygiad ymosodol yn erbyn staff y GIG?

Cydweithio rhwng Sefydliadau Addysg Uwch: A ellir rheoli'n well sut mae Sefydliadau Addysg Uwch yn cydweithio?

RAF Sain Tathan a Phrosiect y Ddraig Goch: Pa mor dda y cafodd y prosiect uchelgeisiol hwn ei reoli?

Oedi wrth Drosglwyddo Gofal: A ellir gwneud mwy i atal oedi wrth drosglwyddo gofal sy'n peryglu annibyniaeth pobl hŷn sy'n agored i niwed? Bydd yr ymchwiliad hwn yn archwilio'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad ar y mater hwn ym mis Chwefror 2008.


SIEMENS
Caution
This equipment is liable to move without warning
Head 3
CAM 1


SIEMENS
14:26
Grayson